



Croeso i'n cylchlythyr cyntaf!

Ein nod yw rhannu gwybodaeth am ymweld â'r coetiroedd a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yr ydym yn gofalu amdanynt ledled Cymru.

Byddwn yn cynnwys y newyddion diweddaraf a beth sydd ar y gweill, ynghyd â rhai syniadau i'ch ysbrydoli i archwilio'r awyr agored ac efallai ymweld â lle sy'n newydd i chi.

[Rhowch wybod i ni](#) beth yw eich barn am y cylchlythyr hwn a rhannwch unrhyw syniadau am gynnwys ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol.

A beth am ei anfon ymlaen at ffrindiau a theulu a hoffai ddarganfod mwy o Gymru hefyd?

Llwybr beicio mynydd newydd bellach ar agor yng nghanolbarth Cymru

Agorodd llwybr beicio mynydd Melindwr ym mis Hydref yng nghanolfan ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian ger Aberystwyth.

Mae'r llwybr newydd hwn sydd wedi'i farcio wedi'i raddio'n las (cymedrol) ond fe'i cynlluniwyd ar gyfer beicwyr sy'n gymwys i reidio llwybrau gradd glas eraill. Mae'n cynnig cam ymlaen tuag at wella sgiliau beicio cyn symud ymlaen i lwybr gradd goch y ganolfan ymwelwyr.



Gellir reidio'r ddolen gyntaf fel llwybr annibynnol ac mae ychydig yn llai na 2 gilometr. Os ydych chi'n reidio dwy ddolen y llwybr, mae'r llwybr cyfan yn 5 cilometr o hyd.

[Darganfyddwch fwy am ymweld â chanolfan ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian](#)

Darganfyddwch safle harddwch trawiadol yn yr hydref ar un o'n llwybrau cerdded



Rydyn ni wedi dewis deg llwybr cerdded yn ein coetiroedd a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol lle gallwch chi fwynhau lliwiau tymhorol yr hydref hwn.

Mae pob llwybr cerdded wedi'i gyfeirnoddi ac yn cychwyn o faes parcio.

Mae yna llwybrau byrrach sy'n ddelfrydol ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc, llwybrau hirach i'r rhai sydd eisiau mwy o her a llwybr pren sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

[Ewch i'n tudalen we ar deithiau cerdded yr hydref i ddewis eich llwybr](#)

Rhodfa Coedwig Cwmcarn ar fin ailagor

Bydd gwaith yn cael ei wneud cyn bo hir i ailagor rhodfa'r goedwig trwy Goedwig Cwmcarn, ger Casnewydd yn ne Cymru.

Mae rheolwr y prosiect, Geminie Drinkwater, wedi cynnal sesiynau galw heibio cyhoeddus yn yr ardal i gael adborth gan bobl leol am yr hyn yr hoffent ei weld o'r goedwig a'r rhodfa newydd.

[Cadwch lygad ar ein gwefan am ragor o wybodaeth wrth i'r cynlluniau ddatblygu.](#)



Cyngor ar gyfer delio â baw cŵn yn yr awyr agored



Pwy sydd heb gael ei gythruddo o weld baw cŵn yn cael ei adael ar lwybrau neu fagiau baw yn hongian ar goed pan fyddan nhw allan am dro?

Er mwyn helpu i ddelio â phroblem baw cŵn yn ein coetiroedd a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, gofynnwn i bob ymwelydd ddilyn y cyngor yn y Codau Cefn Gwlad i gadw'r lleoedd hyn yn arbennig ar gyfer bywyd gwylt a phobl.

Mae Joe Roberts, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol: Hamdden a Mynediad, yn chwalu rhai o'r chwedlau am faw cŵn ac yn rhoi cyngor ar sut i ddelio ag ef.

[Darllenwch flog Joe: Gadael dim ar ôl mewn coetiroedd a gwarchodfeydd natur](#)

Golwg fanwl ar Goedwig Moel Famau, ger yr Wyddgrug

Uchafbwynt ymweliad â Choed Moel Famau yw'r daith i fyny'r allt i Dŵr enwog y Jiwbilí. Gellir gweld yr adfeilion hyn am filltiroedd o gwmpas ac mae'r olygfa o'r copa yn un o'r rhai mwyaf ysblennydd yng Nghymru.



Mae Coed Moel Famau yn cynnig llawer i ymwelwyr ei wneud heb orfod dringo'r allt hefyd. Mae llwybrau byr drwy'r coetir wedi'u cyfeirio o'r maes parcio, ac mae un ohonynt yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae ardaloedd chwarae i blant yn frith o amgylch y coetir ac mae Llwybr y Traciwr ar gyfer ymwelwyr iau. Mae'r llwybr beicio mynydd graddedig glas yn mynd â chi trwy'r goedwig i bwynt uchel gyda golygfeydd ysblennydd.

[Darganfyddwch fwy am ymweld â Choed Moel Famau](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru

[Gwefan](#) | [Cysylltu â ni](#)



Rheoli Tanysgrifiadau

[Rheoli fy newisiadau](#) | [Datdanysgrifio](#) | [Hysbysiad preifatrwyd](#) | [Cymorth](#)